



Esboniad

Pwrpas Prawf Iechyd SFP yw helpu Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i adolygu ac asesu eu cynnydd drwy edrych ar eu sefyllfa bresennol ar sail 6 chategori'r Prawf Iechyd sy'n adlewyrchu eu swyddogaeth a'u strwythur sefydliadol.

Mae'r Lleoedd yn gallu defnyddio'r Prawf Iechyd fel man cychwyn ar gyfer trafod a rhannu persbectifau ar gynnydd, ac i'w helpu i nodi ble mae angen iddynt gyfeirio eu hymdrechion neu lle mae angen cymorth. Gellir ei ddefnyddio hefyd i helpu'r Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i ddeall y cynnydd ym mhob dinas/lle a'u hanghenion am gymorth.

Gall partneriaethau aelodau SFP lawrlwytho'r [Adnodd Prawf Iechyd SFP](#) i'w ddefnyddio gan ddilyn yr esboniad yn y cyflwyniad i'r adnodd.

Bydd staff cymorth SFP hefyd yn ystyried hwyluso gweithdai ar y Prawf Iechyd a phrosesau diagnostig wedi'u seilio ar ddefnyddio Adnodd y Prawf Iechyd gyda chymorth a chyfarwyddyd. Bydd hyn yn fanteisiol iawn lle mae'r Prawf Iechyd yn cael ei gwblhau gan un o grwpiau'r bartneriaeth – y Grŵp Llywio, er enghraifft – a bydd hwyluso allanol o gymorth hefyd wrth sicrhau dull cyfranogol a chynhwysol o weithredu a bydd yn cyflwyno elfen wrthrychol i'r broses ddiagnostig.

Cyflwyniad

- Bydd SFP Cam 3 yn canolbwyntio ar gydgyhyrchu a threialu adnoddau a dulliau ymarferol i **hwyluso gweithdai ar Prawf Iechyd SFP**.
- Wedyn bydd yr adnoddau a dulliau hyn yn cael eu hychwanegu i'r Pecyn Cymorth hwn.